

# Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Pysgodfeydd

Chwefror 2019



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:  
**[www.cynulliad.cymru/SeneddMCD](http://www.cynulliad.cymru/SeneddMCD)**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Bae Caerdydd  
CF99 1NA**

Ffôn: **0300 200 6565**  
E-bost: **[SeneddMCD@cynulliad.cymru](mailto:SeneddMCD@cynulliad.cymru)**  
Twitter: **[@SeneddMCD](https://twitter.com/SeneddMCD)**

© **Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2019**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

# Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Pysgodfeydd

Chwefror 2019



# Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 15 Mehefin 2016. Ceir ei gylch gwaith yn:  
[www.cynulliad.cymru/SeneddMCD](http://www.cynulliad.cymru/SeneddMCD)

---

## Cadeirydd y Pwyllgor:



**Mick Antoniw AC**  
Llafur Cymru  
Pontypridd

## Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Dawn Bowden AC**  
Llafur Cymru  
Merthyr Tudful a Rhymni



**Suzy Davies AC**  
Ceidwadwyr Cymreig  
Gogledd Cymru



**Carwyn Jones AC**  
Llafur Cymru  
Pen-y-bont ar Ogwr



**Mandy Jones AC**  
Annibynnol  
Gogledd Cymru



**Dai Lloyd AC**  
Plaid Cymru  
Gorllewin De Cymru

---

## Cynnwys

<b>Cefndir .....</b>	<b>5</b>
Y Bil.....	5
Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru.....	11
Adroddiad Pwyllgor Pwerau Dirprwyedig a Diwygio Rheoleiddio Tŷr Arglwyddi.....	16
<b>Ystyriaeth y pwyllgor .....</b>	<b>16</b>
Diffyg datganiad ysgrifenedig ac asesiadau effaith .....	16
Yr angen am Fil y DU a gweithio gyda Llywodraeth y DU .....	17
Pwerau dirprwyedig a gwneud rheoliadau a osodir gerbron y Cynulliad Cenedlaethol .....	20
Ysgrifennydd Gwladol yn ceisio cydsyniad Gweinidogion Cymru o dan y Bil..	23
Cymal machlud .....	23
Anghytundeb â Llywodraeth y DU ar gymal 18.....	24
Mecanwaith datrys anghydfodau.....	25
Newidiadau pellach i Fil Pysgodfeydd Llywodraeth y DU.....	27
Bil Pysgodfeydd Llywodraeth Cymru .....	28
Ein barn .....	30



## Cefndir

### Y Bil

#### Crynodeb<sup>1</sup>

---

1. Cafodd Bil Pysgodfeydd Llywodraeth y DU<sup>2</sup> (y Bil) ei ddarlleniad cyntaf yn Nhŷr Cyffredin ar 25 Hydref 2018. Daeth Cyfnod Pwyllgor y Bil yn Nhŷr Cyffredin i ben ar 17 Rhagfyr 2018. Cyhoeddwyd fersiwn arall o'r Bil, fel y'i diwygiwyd yn y Pwyllgor Biliau Cyhoeddus, ar 18 Rhagfyr 2018.<sup>3</sup> Nid yw dyddiad Cyfnod Adrodd Tŷr Cyffredin wedi'i gyhoeddi eto.

2. Mae'r nodiadau esboniadol i'r Bil yn nodi:

“The Fisheries Bill (the Bill) will provide the legal framework for the United Kingdom to operate as an independent coastal state under the United Nations Convention on the Law of the Sea 1982 (UNCLOS) after the UK has left the European Union (EU) and the Common Fisheries Policy (the CFP). The Bill creates common approaches to fisheries management between the UK government and the Devolved Administrations, known collectively as the Fisheries Administrations, and makes reforms to fisheries management in England.”<sup>4</sup>

3. Esbonnir cefndir cyfreithiol datganoli pysgodfeydd yn y nodiadau esboniadol. Mae'n nodi:

“Subject to very few exceptions, the devolved legislatures and administrations have legislative and executive competence in relation to fisheries and marine conservation in their territorial waters.

- The regulation of sea fishing in the Scottish zone and the regulation of Scottish fishing boats anywhere are devolved matters.
- The regulation of sea fishing in the Northern Ireland zone and the regulation of Northern Ireland fishing boats anywhere are

---

<sup>1</sup> Oni nodir yn benodol fel arfer yn yr adroddiad hwn, mae'r cymalau y cyfeirir atynt yn ymwneud â'r Bil ar ddarlleniad cyntaf yn Nhŷr Cyffredin.

<sup>2</sup> [Bil Pysgodfeydd 2017-19, Tŷr Cyffredin 278](#)

<sup>3</sup> [Bil Pysgodfeydd 2017-19, Tŷr Cyffredin 305](#)

<sup>4</sup> Llywodraeth y DU, [Bil Pysgodfeydd: Nodiadau Esboniadol](#), Hydref 2018, paragraff 1

---

devolved matters. In Northern Ireland, the foreshore and seabed are excepted matters.

- The regulation of sea fishing is devolved in the Welsh inshore area but the National Assembly of Wales does not have legislative competence in relation to fisheries in the Welsh offshore area. Fisheries is not reserved under Schedule 7A to the Government of Wales Act 2006. The regulation of sea fishing is not reserved so is devolved where provisions can be said to relate to Wales (which includes the inshore area). Welsh Ministers do have executive competence in relation to fisheries in the offshore region. The regulation of Welsh fishing boats anywhere is devolved, because Welsh fishing boats are registered in a Welsh port and can therefore be said to relate to Wales wherever they are fishing.

Subject to certain exceptions, the Devolved Administrations have devolved competence in relation to marine licensing in their inshore area and the Scottish Ministers and the Welsh Ministers have executive competence in relation to marine licensing in respect of their offshore area.

The Devolved Administrations have executive competence in relation to marine planning in their offshore area as well as competence over marine planning in their inshore area.”<sup>5</sup>

**4.** Mae'r Bil yn gosod amcanion ar gyfer awdurdodau polisi pysgodfeydd, gan ddisodli'r amcanion sydd yn Erthygl 2 o'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin ar hyn o bryd. Mae Cymalau 1 i 6 o'r Bil yn nodi amcanion pysgodfeydd y mae'n rhaid i Lywodraeth y DU a Gweinyddiaethau Datganoledig anelu at eu cyflawni wrth bennu eu polisiâu mewn dwy ddogfen bolisi newydd: Cyd-ddatganiad Pysgodfeydd (JFS) a Datganiad Pysgodfeydd yr Ysgrifennydd Gwladol (SSFS).

**5.** Yn benodol, mae cymal 2 yn diffinio Gweinidogion Cymru fel awdurdod polisi'r pysgodfeydd i Gymru ac mae cymal 3 yn nodi bod yn rhaid i JFS gael ei baratoi gan yr awdurdodau polisi pysgodfeydd yn gweithredu ar y cyd, a rhaid i'r JFS a'r SSFS cyntaf gael eu paratoi a'u cyhoeddi cyn 1 Ionawr 2021. Rhaid gosod y JFS mewn drafft gerbron pob un o'r deddfwrfeydd er mwyn iddynt graffu arno, ac ymgynghori arno'n briodol. Mae Atodlen 1 yn nodi sut y dylid paratoi JFS ac SSFS a'u cyhoeddi.

---

<sup>5</sup> Llywodraeth y DU, Bil Pysgodfeydd: Nodiadau Esboniadol, Hydref 2018, paragraff 43

---



**6.** Mae cymal 6 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cenedlaethol perthnasol (gan gynnwys Gweinidogion Cymru) ddilyn y polisiâu a amlinellir yn y datganiadau pysgodfeydd perthnasol sy'n gymwys iddyn nhw oni bai bod ystyriaethau perthnasol yn nodi fel arall. Mae cymal 6(2) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod cenedlaethol nodi ei resymau os nad yw'n gwneud penderfyniad yn unol â'r JFS.

**7.** Mae cymal 7 yn dod â'r hawliau awtomatig presennol i ben i gychod yr UE bysgota mewn dyfroedd y DU, tra bod cymal 8 yn nodi'r trefniadau mynediad ar gyfer cychod bysgota tramor i bysgodfeydd Prydain h.y. drwy drwydded neu ddiben a gydnabyddir gan gyfraith ryngwladol.

**8.** Yn gyffredinol, mae cymalau 9-17 ac Atodlen 2 yn atgyfnerthu ac yn egluro'r gyfraith bresennol o ran trwyddedu cychod bysgota, yn ogystal â gwneud rhai newidiadau polisi. Maent yn darparu newidiadau i'r drefn bresennol ar gyfer trwyddedu llongau'r DU, yn ogystal â gwneud darpariaethau ar gyfer trwyddedu cychod bysgota nad ydynt o'r DU yn nyfroedd y DU. Mae Cymal 10 yn darparu ei bod yn fater i bob cenedl o'r DU drwyddedu eu llongau bysgota eu hunain; er enghraifft, byddai Gweinidogion Cymru yn gallu rhoi trwydded bysgota mewn perthynas â llong bysgota o Gymru.

**9.** Mae cymal 18 yn nodi'r pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol bennu "cyfleoedd bysgota", a ddiffinnir yn y Bil fel:

- uchafswm y pysgod môr y gellid eu dal gan gychod bysgota o Brydain;
- uchafswm y dyddiau y mae cychod bysgota o Brydain yn gallu eu treulio ar y môr.

**10.** Mae'r swyddogaethau hyn yn cael eu cadw i'r Ysgrifennydd Gwladol at y "diben o gydymffurfio â rhwymedigaeth ryngwladol" y DU. Mae'r cymal hwn yn disodli'r ddarpariaeth gyfredol yng nghyfraith yr UE sy'n caniatáu i'r Cyngor Ewropeaidd bennu cyfleoedd bysgota yn nyfroedd yr UE.

**11.** Mae cymal 19 yn darparu na ellir ond gwneud penderfyniad o dan Cymal 18 ar ôl ymgynghori â'r Gweinidogion Cymru a Gweinidogion yr Alban, Adran Gogledd Iwerddon a'r Sefydliad Rheoli Morol (MMO).

**12.** Mae cymal 20 y Bil yn nodi, yn ddarostyngedig i fân newidiadau, yr ystyrir y meini prawf o Erthygl 17 y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin wrth ddisbarthu cyfleoedd bysgota. At ddibenion cymal 20, yr "awdurdodau cenedlaethol perthnasol" yw'r Ysgrifennydd Gwladol a'r Sefydliad Rheoli Morol (MMO). Mae'r nodiadau esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Bil yn nodi nad yw Cymal 20 yn gwneud Erthygl 17 yn

gymwys i'r Gweinyddiaethau Pysgodfeydd eraill (gan gynnwys Gweinidogion Cymru), ar eu cais hwy. Mae hyn yn golygu bod y meini prawf yn Erthygl 17, fel y'u diwygiwyd gan Gymal 20 o'r Bil, yn gymwys yn Lloegr yn unig, felly dim ond awdurdodau pysgodfeydd Lloegr sy'n gorfod cymhwyso'r meini prawf hyn.

**13.** Mae cymal 21 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau cenedlaethol perthnasol, gan gynnwys Gweinidogion Cymru, i arfer eu swyddogaethau pysgodfeydd er mwyn sicrhau na ragorir ar gyfleoedd pysgota'r DU.

**14.** Ar hyn o bryd o dan aelodaeth y DU o'r UE a'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin, rhoddir cymorth ariannol drwy Gronfa Pysgodfeydd Morwrol Ewrop (EMFF). Mae Cymal 28 yn cyflwyno Atodlen 4, sy'n rhoi pwerau i Weinidogion Cymru roi neu drefnu cymorth ariannol i unrhyw berson at ddibenion penodol, gan gynnwys ar gyfer:

- cadwraeth, gwella neu adfer yr amgylchedd morol a dyfrol;
- hyrwyddo neu ddatblygu gweithgareddau dyframaethu masnachol neu weithgareddau pysgota masnachol;
- aildrefnu busnes sy'n ymwneud â gweithgareddau dyframaethu masnachol neu weithgareddau pysgota masnachol;
- cyfrannu at dreuliau person sy'n ymwneud â gweithgareddau dyframaethu masnachol neu weithgareddau pysgota masnachol;
- hyrwyddo neu ddatblygu pysgota hamdden.

**15.** Mae paragraff 2 o Atodlen 4 yn nodi bod yn rhaid rhoi cymorth ariannol yn unol â chynllun a sefydlwyd gan reoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru. Mae'r pwerau hyn ar gael mewn perthynas â Chymru, parth Cymru, neu gychod pysgota o Gymru.

**16.** Mae Cymal 31 yn rhoi pwerau eang i wneud darpariaethau ar faterion y mae'r UE yn eu rheoleiddio o dan y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin, sef:

- at ddiben gweithredu rhwymedigaeth ryngwladol y Deyrnas Unedig sy'n ymwneud â physgodfeydd, pysgota neu ddyframaeth;
  - at ddiben cadwraeth; neu
  - at ddiben y diwydiant pysgota.
-

**17.** Diffinnir “diben cadwraeth” a “diben y diwydiant pysgota”, ac mae’r Cymal yn rhestru’r materion y mae’n rhaid i’r rheoliadau fod yn gysylltiedig â hwy.

**18.** Mae Cymal 33 yn darparu pwerau gwneud rheoliadau i’r Ysgrifennydd Gwladol er mwyn gwneud darpariaeth ar gyfer clefydau anifeiliaid dyfrol.

**19.** Rhaid ymgynghori â Gweinidogion Cymru cyn i’r Ysgrifennydd Gwladol wneud unrhyw ddarpariaethau o dan Cymalau 31 a 33, a rhoi cydsyniad mewn rhai amgylchiadau.

**20.** Mae Cymal 37 yn cyflwyno Atodlen 6, sy’n rhoi pwerau gwneud rheoliadau cyfatebol i Weinidogion Cymru mewn perthynas â Chymalau 31 a 33. Mae paragraff 7(3) o Atodlen 6 yn cyfyngu ar y pwerau gwneud rheoliadau hynny gan Weinidogion Cymru i wneud darpariaethau sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Yn yr un modd, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â’r awdurdodau polisi pysgodfeydd eraill, ac unrhyw bersonau priodol eraill, cyn gwneud darpariaethau o dan y Cymalau hyn.

**21.** Mae Cymal 38 yn cyflwyno Atodlen 7, sy’n rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud Gorchmynion mewn perthynas ag ecsbloetio pysgodfeydd môr, ac effaith pysgota ar gadwraeth forol. Mae’r darpariaethau hyn yn disodli mesurau’r UE ar gyfer diogelu’r amgylchedd morol ym mharth alltraeth yr Aelod-wladwriaethau. Drwy ddiwygio *Deddf y Môr a Mynediad i’r Arfordir 2009*, mae’r Bil yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud Gorchmynion mewn perthynas â Chymru ac ardal alltraeth Cymru at ddibenion cadwraeth.

**22.** Mae nifer o wahaniaethau rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU o ran y darpariaethau lle mae angen cydsyniad y Cynulliad Cenedlaethol. Barn Llywodraeth y DU yw y bydd angen y broses cydsynio deddfwriaethol ar gyfer cymalau 1 i 17, 21, 29 i 43, Atodlenni 1 i 4, ac Atodlenni 6 a 7.<sup>6</sup> Nid yw Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod angen cydsyniad ar gymalau 29, 32, 36, 39-43 ac Atodlen 3, ond mae’n credu bod angen cydsyniad ar gyfer cymalau 18 i 20 a chymal 28. Trafodir y gwahaniaeth barn hwn yn nes ymlaen yn yr adroddiad.

### Pwerau gwneud rheoliadau

---

**23.** Mae Memorandwm Pwerau Dirprwyedig Llywodraeth y DU yn amlinellu’r pwerau gwneud rheoliadau yn y Bil.<sup>7</sup> Mae’n cadarnhau’r pwerau ar gyfer Gweinidogion y Gweinyddiaethau Datganoledig:

---

<sup>6</sup> Llywodraeth y DU, Bil Pysgodfeydd: Nodiadau Esboniadol, Hydref 2018, paragraff 60 ac Atodiad A

<sup>7</sup> Llywodraeth y DU, Bil Pysgodfeydd: Memorandwm Pwerau Dirprwyedig, Hydref 2018

---

“Fisheries is a devolved matter and the Bill contains a number of powers which will be exercisable by the Devolved Administrations as well as by the Secretary of State. To support a consistent approach to fisheries management across the UK, it also contains some powers which are exercisable by the Secretary of State in relation to devolved matters – but with the consent of the Devolved Administrations. The Bill also extends the powers of the MMO to make byelaws to control the impact of fishing on the marine environment and confers equivalent powers on Scottish Ministers and Welsh Ministers.”<sup>8</sup>

**24.** O ran pwrpas y pwerau dirprwyedig, mae'r Memorandwm Pwerau Dirprwyedig yn nodi:

“The Bill will create a dynamic fisheries regime. The Department recognises that, in order to do this, the Bill contains a number of broad delegated powers but has considered the scope of these powers very carefully. It has sought to balance the need for powers broad enough to allow us to react quickly to changes in the international fisheries management regime and to scientific advice against the need for effective Parliamentary oversight. It has considered carefully the nature of the powers being sought. Many fisheries measures are highly technical and in the Department's view they are best dealt with in future secondary legislation. Others will be of more interest to Parliament and the Bill recognises this. By setting out the power of the Secretary of State to determine the UK's fishing opportunities, it constrains what is currently a prerogative power. The Bill also provides for scrutiny by Parliament, the Scottish Parliament, the National Assembly for Wales and the Northern Ireland Assembly, of a Joint Fisheries Statement which the UK Fisheries Administrations must adopt, setting out how their policies will achieve or contribute to the achievement of key UK fisheries objectives. It is UK Government policy to consult wherever appropriate but the Bill contains a number of provisions requiring consultation of the Devolved Administrations and of others likely to be affected by regulations made under the Bill.”<sup>9</sup>

---

<sup>8</sup> Llywodraeth y DU, Bil Pysgodfeydd: Memorandwm Pwerau Dirprwyedig, Hydref 2018, paragraff 8

<sup>9</sup> Llywodraeth y DU, Bil Pysgodfeydd: Memorandwm Pwerau Dirprwyedig, Hydref 2018, paragraff 9

---

**25.** Mae'r Bil yn darparu pwerau gwneud rheoliadau ar gyfer Gweinidogion Cymru fel a ganlyn:

Pŵer gwneud rheoliadau	Gweithdrefn sy'n gymwys
Atodlen 2 paragraff 7(1) (fel y'i cyflwynwyd gan gymal 13)	Negyddol
Atodlen 2 paragraff 7(3) (fel y'i cyflwynwyd gan gymal 13)	Negyddol
Atodlen 2 paragraff 7(5) (fel y'i cyflwynwyd gan gymal 13)	Cadarnhaol
Atodlen 4 (fel y'i cyflwynwyd gan gymal 28)	Cadarnhaol
Atodlen 6 (fel y'i cyflwynwyd gan gymal 37)	Negyddol neu gadarnhaol

**26.** O ran dewis y weithdrefn ar gyfer y rheoliadau a wnaed o dan Atodlen 6, mae'r weithdrefn negyddol yn gymwys cyn belled nad yw'r Rheoliadau:

- diwygio deddfwriaeth sylfaenol;
- diwygio Erthygl 17 o Reoliad CFP;
- gosod ffioedd;
- creu trosedd neu gynyddu'r gosb neu ehangu cwmpas y trosedd; cyflwyno swyddogaethau, addasu swyddogaethau neu ymwneud â rheoli sefydliadau cynhyrchwyr neu sefydliadau cydadranol.

**27.** Felly, mae'r Bil yn darparu pwerau gwneud rheoliadau Harri VIII i Weinidogion Cymru o dan Atodlen 6, sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol.

**28.** Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol ofyn am gydsyniad Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau o dan gymalau 9(3), 11(2), ac, mewn rhai amgylchiadau, cymalau 31 a 33.

**29.** Fel y'i drafftwyd ar hyn o bryd, mae'r Bil yn cynnig bod rheoliadau a gaiff eu gwneud o dan gymal 18(8) yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol.

## Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru

**30.** Yn unol â Rheolau Sefydlog 29.1 a 29.2, mae angen Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol (LCM) oherwydd bod darpariaethau yn y Bil yn addasu neu'n dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad.

**31.** Ar 15 Tachwedd 2018, gosododd Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig<sup>10</sup> LCM mewn cysylltiad â'r Bil gerbron y Cynulliad Cenedlaethol.<sup>11</sup>

**32.** Ar 27 Tachwedd 2018, cyfeiriodd y Pwyllgor Busnes yr LCM at y Pwyllgor hwn, y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, a'r Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol i'w ystyried. Pennodd y Pwyllgor Busnes 12 Chwefror 2019 ar gyfer cyflwyno adroddiad.<sup>12</sup>

**33.** Mae LCM Llywodraeth Cymru yn nodi:

“ar gais Llywodraeth Cymru, mae'r Bil yn cynnwys hefyd bwerau i Weinidogion Cymru.”<sup>13</sup>

**34.** Nid yw'r pwerau a ddarparwyd i Weinidogion Cymru gan y Bil yn gyfyngedig o ran amser, gan nad oes cymal machlud wedi'i gynnwys yn y Bil ar hyn o bryd.

**35.** Mae paragraffau 7 i 36 o'r LCM yn nodi asesiad Llywodraeth Cymru o ba ddarpariaethau yn y Bil sydd angen cydsyniad.<sup>14</sup>

**36.** Fel y nodir ym mharagraff 21, mae gwahaniaethau barn rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ynghylch y darpariaethau y mae angen cydsyniad arnynt. Nid yw Llywodraeth Cymru, yn wahanol i Lywodraeth y DU, yn credu bod angen cydsyniad ar gyfer cymalau 18 i 20 a chymal 28.

**37.** Mae paragraffau 37 i 42 o'r LCM yn nodi rhesymau Llywodraeth Cymru pam bod cynnwys darpariaeth ar gyfer Cymru yn y Bil yn briodol:

“Mae'r Bil Pysgodfeydd yn creu elfennau deddfwriaethol Fframwaith y DU ar gyfer rheoli a chefnogi pysgodfeydd a chymorth wedi ymadael â'r UE. Dim ond trwy Fil y DU, sy'n darparu set unffurf o ymrwymadau ac amcanion, y byddai'n briodol cymhwyso'r darpariaethau hyn.

A ninnau'n gadael yr UE ym mis Mawrth 2019, nid oes amser i ddeddfwriaeth addas basio trwy'r Cynulliad. Byddai Bil Cynulliad o'r

---

<sup>10</sup> Yn dilyn ad-drefnu Cabinet Llywodraeth Cymru ar 13 Rhagfyr 2018, daeth Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig yn Weinidog Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig.

<sup>11</sup> Llywodraeth Cymru, [Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Bil Pysgodfeydd](#), Tachwedd 2018

<sup>12</sup> Pwyllgor Busnes, [Amserlen ar gyfer ystyried y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Pysgodfeydd](#), Tachwedd 2018

<sup>13</sup> Llywodraeth Cymru, [Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Bil Pysgodfeydd](#), Tachwedd 2018, paragraff 6

<sup>14</sup> Llywodraeth Cymru, [Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Bil Pysgodfeydd](#), Tachwedd 2018

---

fath ond yn gallu delio gyda'r trefniadau gweinyddol angenrheidiol yn gysylltiedig â Chymru ac mae Bil arfaethedig Pysgodfeydd y DU yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru mewn perthynas â Chymru, parth Cymru a chychod pysgota yng Nghymru y tu hwnt i'r parth hwnnw fel y bo'n briodol.

O dan y trefniadau datganoli presennol, ni fyddai Deddf gan y Cynulliad yn gallu gwneud yr holl ddarpariaethau fyddai eu hangen i wneud Bil ystyrllon. Mae hynny'n golygu ein bod yn dibynnu'n rhannol ar Fil Pysgodfeydd y DU ac yn rhannol ar Fil Pysgodfeydd Cymreig.

Mae Llywodraeth Cymru ar y cyfan yn cefnogi'r Bil fel y'i drafftwyd, ar wahân i gymal 18. Fodd bynnag, ceir dau faes hefyd nad ydynt wedi cael digon o sylw. Yn gyntaf, nid yw'r Bil yn lleddfu'n gofidiau ynghylch Cymhwysedd Deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol am faterion sy'n ymwneud â physgodfeydd y tu hwnt i Gymru. Mae Llywodraeth Cymru yn ceisio sicrhau bod cymhwysedd y Cynulliad Cenedlaethol yn unol â chymhwysedd deddfwriaethol Gweinidogion Cymru, a fyddai'n golygu bod fframweithiau ledled y DU yn llai cymhleth wrth symud ymlaen.

Yn ail, carai Llywodraeth Cymru weld Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 yn cael ei ddiwygio er mwyn i Weinidogion Cymru gael newid yr amodau a roddir ar unrhyw drwydded yn unol â'r Ddeddf. Byddai hynny'n caniatáu inni reoli'n pysgodfeydd mewn ffordd llawer mwy hyblyg ac ymatebol.

Byddwn yn parhau i weithio gyda Llywodraeth y DU i ddatrys y materion hyn a materion eraill a chyflwynwn Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol os oes angen."<sup>15</sup>

**38.** Ar 10 Ionawr 2019, gosododd Llywodraeth Cymru LCM Atodol.<sup>16</sup>

**39.** Mae'r LCM Atodol yn nodi:

"Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r gwelliannau a wnaed i'r Bil wrth iddo gael ei ystyried gan un o Bwyllgorau Tŷ'r Cyffredin. Mae trafodaethau'n parhau gyda Llywodraeth y DU ar rai agweddau ar y Bil

---

<sup>15</sup> Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Bil Pysgodfeydd, Tachwedd 2018

<sup>16</sup> Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) Bil Pysgodfeydd, Ionawr 2019

---

ac, os bydd angen, bydd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol arall yn cael ei osod.”<sup>17</sup>

**40.** Ychwanegwyd cymal 39 i'r Bil yn y cyfnod pwyllgorau, sy'n diwygio adran 108A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (Deddf 2006), ac sy'n gwneud nifer o newidiadau canlyniadol pellach i Ddeddf 2006. Mae'r gwelliannau hyn yn ehangu cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad mewn cysylltiad â physgodfeydd, pysgota ac iechyd pysgod, er mwyn cynnwys Parth Cymru. Mae'r LCM Atodol yn nodi:

“Mae cymal 39 newydd yn diwygio adran 108A (cymhwysedd deddfwriaethol) Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (“Deddf 2006”) ac yn gwneud nifer o newidiadau canlyniadol pellach i Ddeddf 2006. Mewnosodir adran 108A(4A) newydd sy'n darparu bod cyfeiriadau at Gymru yn is-adrannau (2)(b) a (3) o adran 108A yn cynnwys ardal parth Cymru mewn perthynas â physgota, pysgodfeydd neu iechyd pysgod. Yr effaith, mewn perthynas â physgota, pysgodfeydd ac iechyd pysgod, yw bod cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cael ei estyn i Gymru ac i barth Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gallu deddfu eisoes (ac y bydd yn parhau i fedru gwneud hynny) mewn perthynas â chychod pysgota o Gymru y tu hwnt i Gymru ar y sail y byddai deddfwriaeth o'r fath 'in relation to Wales' at ddibenion adran 108A(2)(b) o Ddeddf 2006.

Mae sicrhau bod y diwygiad hwn yn cael ei gynnwys yn y Bil yn gam pwysig ymlaen yn gyfansoddiadol a bydd yn galluogi Cynulliad Cenedlaethol Cymru i gyflwyno Bil Pysgodfeydd gan y Cynulliad mewn perthynas â Chymru, parth Cymru a chychod pysgota o Gymru y tu allan i'r parth hwnnw.”<sup>18</sup>

**41.** Mae'r LCM Atodol yn amlygu gwelliannau i *Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009* y mae Llywodraeth Cymru am eu gwneud gan y Bil:

“... roedd Llywodraeth Cymru am weld diwygiadau i Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 (“Deddf 2009”) yn cael eu cynnwys yn y Bil er mwyn caniatáu i Weinidogion Cymru amrywio o bryd i'w gilydd yr

---

<sup>17</sup> Llywodraeth Cymru, *Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) Bil Pysgodfeydd*, Ionawr 2019, paragraff 26

<sup>18</sup> Llywodraeth Cymru, *Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) Bil Pysgodfeydd*, Ionawr 2019, paragraffau 17-19

---



amodau sy'n gysylltiedig ag unrhyw drwyddedau pysgota a roddir gan Weinidogion Cymru yn unol â Deddf 2009. Bydd hynny'n caniatáu i Weinidogion Cymru reoli pysgodfeydd Cymru mewn ffordd llawer mwy hyblyg ac ymatebol.

Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n trafod â Llywodraeth y DU gyda golwg ar sicrhau gwelliant ar y mater hwn yn nes ymlaen yn ystod proses y Bil.”<sup>19</sup>

**42.** Mae'r LCM Atodol yn nodi'r anghytundeb rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU mewn cysylltiad â Chymal 18 o'r Bil:

“Mae cymal 18 yn darparu mai dim ond er mwyn cydymffurfio â rhwymedigaethau rhyngwladol yn y DU y bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn pennu cyfanswm cyfleoedd pysgota'r DU (o ran uchafswm y pysgod môr a'r nifer mwyaf o ddyddiau y caiff cychod pysgota o Brydain eu treulio ar y môr). Er ei bod yn briodol i'r Ysgrifennydd Gwladol bennu cyfanswm y cyfleoedd pysgota a fydd yn deillio o drafodaethau rhwng y gwladwriaethau arfordirol pan fyddwn yn ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, gwnaethom nodi yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol cyntaf sy'n gysylltiedig â'r Bil hwn nad oeddem yn fodlon â'r ffordd yr oedd cymal 18 wedi ei ddrafftio.

Barn Llywodraeth y DU yw bod cymal 18 yn ymwneud â rhwymedigaethau rhyngwladol, sy'n swyddogaethau a gadwyd yn ôl, ac felly nad yw'n briodol cynnwys gofyniad yn ymwneud â chydsyniad. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau o'r farn ei bod yn briodol i Lywodraeth y DU ddatblygu, mireinio ac ymrwymo i gytundebau rhyngwladol gan fod y mater hwnnw'n un sydd wedi ei gadw'n ôl. Fodd bynnag, nid yw gweithredu cytundebau rhyngwladol mewn meysydd lle y mae cymhwysedd wedi ei ddatganoli yn fater sydd wedi ei gadw'n ôl, ac mae o fewn Cymhwysedd Deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Cadarnhawyd hynny gan y Goruchaf Lys yn Reference of the UK Withdrawal from the EU (Legal Continuity) (Scotland) Bill [2018] UKSC 64. Gan fod y term 'International Obligations' (a ddefnyddir yn y Bil) yn eang ac oherwydd y gallai fod yn cwmpasu gweithredu cytundeb o'r fath, mae'r Cymal yn effeithio ar

---

<sup>19</sup> Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2), Bil Pysgodfeydd, Ionawr 2019, paragraffau 10-11

gymhwysedd deddfwriaethol ac felly, mae angen cydsyniad y Cynulliad.”<sup>20</sup>

## Adroddiad Pwyllgor Pwerau Dirprwyedig a Diwygio Rheoleiddio Tŷ'r Arglwyddi

**43.** Cyhoeddodd Pwyllgor Pwerau Dirprwyedig a Diwygio Rheoleiddio Tŷ'r Arglwyddi ei adroddiad (adroddiad Pwyllgor DPRR) ar Fil Pysgodfeydd y DU ar 15 Tachwedd 2018.<sup>21</sup> O ystyried arwyddocâd Bil Pysgodfeydd y DU, adroddodd y Pwyllgor Pwerau Dirprwyedig a Diwygio Rheoleiddio mewn pryd ar gyfer y cyfnod pwyllgorau yn Nhŷ'r Cyffredin, yr un dull a fabwysiadwyd ganddynt mewn perthynas â Bil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a'r Bil Amaethyddiaeth.

**44.** Tra'n cydnabod mai nod strategol y Bil Pysgodfeydd yn ei hanfod yw yr un fath â'r Bil Amaethyddiaeth, daeth adroddiad y Pwyllgor DPRR i'r casgliad... “the Fisheries Bill is a major improvement on the Agriculture Bill so far as delegated powers are concerned”.<sup>22</sup>

## Ystyriaeth y pwyllgor

**45.** Clywsom dystiolaeth gan y Gweinidog ar 21 Ionawr 2019.<sup>23</sup>

**46.** Cafodd ein hystyriaeth o'r LCM ei lywio hefyd gan ohebiaeth a gafodd ei chyfnewid rhwng Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig a'r Gweinidog.<sup>24</sup>

## Diffyg datganiad ysgrifenedig ac asesiadau effaith

**47.** Yn wahanol i Fil Amaethyddiaeth y DU, nid yw'r Gweinidog wedi cyhoeddi unrhyw ddatganiadau swyddogol mewn perthynas â'r Bil. Pan ofynnwyd iddi y rheswm dros hyn, dywedodd:

---

<sup>20</sup> Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2), Bil Pysgodfeydd, Ionawr 2019, paragraffau 12-13

<sup>21</sup> Tŷ'r Arglwyddi, Pwyllgor Pwerau Dirprwyedig a Diwygio Rheoleiddio, Bil Pysgodfeydd, 39fed Adroddiad Sesiwn 2017-2019, Papur Tŷ'r Arglwyddi 226, 15 Tachwedd 2018

<sup>22</sup> Tŷ'r Arglwyddi, Pwyllgor Pwerau Dirprwyedig a Diwygio Rheoleiddio, Bil Pysgodfeydd, 39fed Adroddiad Sesiwn 2017-2019, Papur Tŷ'r Arglwyddi 226, 15 Tachwedd 2018, paragraff 2

<sup>23</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, Cofnod y Trafodion, 21 Ionawr 2019

<sup>24</sup> Llythyr gan Lesley Griffiths AC, Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig at Mike Hedges AC, Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 22 Ionawr 2019

---

“...they’re two very different Bills. (...) They’re quite often conflated and compared in a way that they shouldn’t be because, again, they’re very different. Agriculture’s very different to fisheries management, so I don’t think we can compare them. So, I think we’re in a very different space with this Bill, which is why I haven’t made a statement as yet. And I think, because—and this sounds really obvious—the four countries share the same fish, we are much keener to work together to find a solution and to get the right framework in place.”<sup>25</sup>

**48.** At hynny, nid oes asesiadau effaith ar gael yn gyhoeddus sy’n cyd-fynd â’r sylw ar y darpariaethau yn y Bil o ran sut maent yn ymwneud â Chymru.

### Yr angen am Fil y DU a gweithio gyda Llywodraeth y DU

**49.** Mae’r Bil yn creu elfennau deddfwriaethol sylfaenol Fframwaith y DU ar gyfer rheoli a chefnogi pysgodfeydd unwaith y bydd y DU wedi gadael yr Undeb Ewropeaidd. Yn ogystal â darparu pwerau gwneud rheoliadau a phwerau gweithredol i Weinidogion Cymru, mae’r Bil yn cynnwys rhai pwerau sy’n arferadwy gan yr Ysgrifennydd Gwladol mewn perthynas â materion datganoledig i gefnogi’r nod a fynegwyd o sicrhau dull cyson i reoli pysgodfeydd ledled y DU. Fodd bynnag, mae’r pwerau hyn ond yn arferadwy gyda chydysyniad Gweinidogion Cymru.

**50.** Wrth osod cyd-destun y Bil, dywedodd y Gweinidog wrthym:

“... the Bill as far as it relates to Wales is absolutely necessary for us to be able to manage our fisheries and our marine environment appropriately when we exit the EU.”<sup>26</sup>

**51.** Mewn llythyr at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, dywedodd y Gweinidog:

“Mae’r Bil yn darparu cyfres gynhwysfawr o bwerau rheoli pysgodfeydd ar gyfer y DU, yn cynnwys ystod eang o bwerau i Weinidogion Cymru. (...) Ni ellid fod wedi cynnwys yr un o’r darpariaethau hyn mewn Bil Pysgodfeydd i Gymru yn eu ffurf bresennol gan fod y darpariaethau’n cynnwys elfennau sy’n gymwys ym mharth Cymru y tu hwnt i Gymru, ardal nad oes gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru unrhyw gymhwysedd deddfwriaethol ar ei chyfer ar hyn o bryd. Mae cymal 39 y Bil Pysgodfeydd yn darparu ar gyfer ymestyn Cymhwysedd

---

<sup>25</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, Cofnod y Trafodion, [34], 21 Ionawr 2019

<sup>26</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, Cofnod y Trafodion, [29], 21 Ionawr 2019

---

Deddfwriaethol y Cynulliad i'r rhan o barth Cymru sydd yn y môr. (...) Gan na fydd sicrwydd o ymestyn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad hyd nes daw'r Bil Pysgodfeydd yn gyfraith, ystyrir ei bod hi'n ddoeth ceisio sicrhau'r holl bwerau angenrheidiol ar gyfer Gweinidogion Cymru ym Mil Pysgodfeydd y DU."<sup>27</sup>

**52.** Gofynnwyd i'r Gweinidog am ddatblygiad y Bil a lefel y drafodaeth a'r cydweithrediad rhynglywodraethol. Dywedodd y Gweinidog wrthym:

"I think it's probably safe to say we didn't get off to the best start. Certainly, we weren't involved in the drafting of the Bill. However, as soon as the Bill did come forward, we had then extensive engagement, particularly at an official level, but also at a ministerial level.

... I think we've been able to be much more influential and we've been able to bring forward changes to the Bill much easier than the previous one."<sup>28</sup>

**53.** Ychwanegodd:

"... I think the level of engagement was very good—much quicker than the Agriculture Bill; I think we learned lessons there. ... I think I'm much happier with the engagement in relation to this Bill."<sup>29</sup>

**54.** Yn ystod Ail Ddarlleniad yn Nhŷ'r Cyffredin, talodd Michael Gove AS, yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, deyrnged i natur adeiladol y trafodaethau â Llywodraeth Cymru.<sup>30</sup>

**55.** Gofynnwyd i'r Gweinidog p'un a oedd unrhyw ddarpariaethau yn y Bil nad oeddent yn ymwneud â fframweithiau cyffredin ond sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol. Fodd bynnag, ni chawsom ymateb clir iawn.<sup>31</sup>

**56.** Ni chlywsom dystiolaeth gan y Gweinidog ynghylch cymal 2, Atodlen 1, cymal 6 na chymal 20 ond yn nodi'r sylwadau canlynol a wnaed mewn gohebiaeth â'r

---

<sup>27</sup> Llythyr gan Lesley Griffiths AC, Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig at Mike Hedges AC, Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 22 Ionawr 2019

<sup>28</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, Cofnod y Trafodion, [31], 21 Ionawr 2019

<sup>29</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, Cofnod y Trafodion, [31], 21 Ionawr 2019

<sup>30</sup> Tŷ'r Cyffredin, Ail Ddarlleniad, Bil Pysgodfeydd, 21 Tachwedd 2018, col 899

<sup>31</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, Cofnod y Trafodion, [41], 21 Ionawr 2019

---

Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, a amlygodd sut cafodd y Bil ei baratoi.

**57.** O ran cymal 2, dywedodd y Gweinidog:

“Datblygwyd darpariaethau mewn perthynas â'r Cyd-ddatganiad Pysgodfeydd gan Lywodraeth y DU. Mae trafodaethau ynghylch cynnwys y Cyd-ddatganiad Pysgodfeydd yn parhau a byddant yn cael eu llywio gan waith craffu ar y Bil. Rydym ar ddeall y bydd cerrig milltir y soniwch amdanynt [er enghraifft mewn perthynas â Chynnyrch Cynaliadwy Mwyaf] yn cael eu cynnwys yn y Cyd-ddatganiad Pysgodfeydd.”<sup>32</sup>

**58.** O ran cymal 6, dywedodd y Gweinidog:

“O dan yr amgylchiadau annhebygol y bydd cymal 6(2) yn cael ei ddefnyddio yng Nghymru, byddem yn disgwyl cyhoeddi Datganiad Ysgrifenedig i'r Cynulliad. Draftiwyd cymal 6(2) gan y Cwnsler Seneddol yn dilyn cyfarwyddiadau gan Lywodraeth y DU. Ni ymgynghorwyd â Llywodraeth Cymru ar y cyfarwyddiadau.”<sup>33</sup>

**59.** Fel gyda chymalau 2 a 6, mae llythyr y Gweinidog at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig yn cadarnhau nad oedd Gweinidogion Cymru yn rhan o'r gwaith o ddrafftio darpariaethau Atodlen 1:

“Cafodd y darpariaethau sy'n ymwneud ag atodlen 1 eu drafftio gan y Cwnsler Seneddol yn dilyn cyfarwyddiadau gan Lywodraeth y DU. Ni ymgynghorwyd â Llywodraeth Cymru ar y cyfarwyddiadau. Nid wyf yn ymwybodol o ba ystyriaeth a roddodd Llywodraeth y DU i [gynnwys darpariaeth ar gyfer cymeradwyo JFS gan y ddeddfwriaeth briodol].”<sup>34</sup>

**60.** Fel y nodwyd yn flaenorol, mae'r Nodiadau Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Bil yn nodi nad yw Cymal 20 yn gwneud Erthygl 17 yn gymwys i'r Gweinyddiaethau Pysgodfeydd eraill (gan gynnwys Gweinidogion Cymru), ar eu cais hwy. Fodd

---

<sup>32</sup> Llythyr gan Lesley Griffiths AC, Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig at Mike Hedges AC, Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 22 Ionawr 2019

<sup>33</sup> Llythyr gan Lesley Griffiths AC, Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig at Mike Hedges AC, Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 22 Ionawr 2019

<sup>34</sup> Llythyr gan Lesley Griffiths AC, Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig at Mike Hedges AC, Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 22 Ionawr 2019

bynag, yn ei llythyr at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, dywedodd y Gweinidog:

“...mynegodd swyddogion o’r gweinyddiaethau datganoledig nifer o bryderon ynghylch cynnwys y ddarpariaeth hon yn y bil. (...) Rydym ar ddeall, wrth ddyrannu cyfleoedd pysgota yn ymarferol, na fydd erthygl 17 o’r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin yn berthnasol i Weinidogion Cymru. (...) Heb Erthygl 7 y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin, bydd angen i benderfyniadau Gweinidogion Cymru yn y maes hwn gael eu llywio gan ddeddfwriaeth arall, yn cynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol.”<sup>35</sup>

**61.** Yn dilyn hynny, dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig fod Llywodraeth Cymru yn ceisio diwygio cymal 20 i gymhwyso Erthygl 17 yng Nghymru.<sup>36</sup> Eglurodd swyddog a oedd yn bresennol gyda’r Gweinidog y sefyllfa:

“What we were looking to do originally was not to have article 17, which is under clause 20, apply in Wales. Because we’ve got well-being of future generations, which really no-one else in the UK has, that can help inform how we move forward, how we make sure there’s community benefit for how things are allocated, for example. But what that appears to have done is introduced a degree of confusion, because we need a consistent way of, at a high level, how we administer the distribution across the UK, because it’s the same fish. So, what we’re looking at at the moment is how we can reapply clause 20 to Wales.”<sup>37</sup>

## Pwerau dirprwyedig a gwneud rheoliadau a osodir gerbron y Cynulliad Cenedlaethol

**62.** Dywedodd y Gweinidog wrthym ei bod wedi gofyn am bwerau gwneud rheoliadau yn ymwneud â chymorth ariannol, rhesymau cadwraeth natur, ac, yn fwy cyffredinol, i reoli ein pysgodfeydd ar ôl Brexit yn llawer mwy dynamig.<sup>38</sup>

---

<sup>35</sup> Llythyr gan Lesley Griffiths AC, Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig at Mike Hedges AC, Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 22 Ionawr 2019

<sup>36</sup> Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, Cofnod y Trafodion [188], 24 Ionawr 2019

<sup>37</sup> Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, Cofnod y Trafodion [189], 24 Ionawr 2019

<sup>38</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, Cofnod y Trafodion, [49], 21 Ionawr 2019

---

**63.** Gofynnwyd i'r Gweinidog a oedd y pwerau yn y Bil yn bwerau cyfatebol i'r pwerau presennol, neu a oedd y Bil yn gyfle i gyflwyno polisi newydd gan ddefnyddio'r pwerau y gofynnwyd amdanynt. Ymatebodd y Gweinidog:

"I think it's probably like-for-like and it's to enable us to be able to manage our fisheries in a much more meaningful way. We will have to, obviously, amend existing fisheries enactments. We may have to change...retained EU legislation.

...

It would enable us to deviate from EU legislation, wouldn't it, but I don't think it would enable us to do it without consultation."<sup>39</sup>

**64.** Galwodd swyddog a oedd yno gyda'r Gweinidog y darpariaethau yn y Bil yn "toolset of powers"<sup>40</sup>. Pan gafodd ei holi eto p'un a oedd y pwerau yn rhai cyfatebol, ychwanegodd y swyddog:

"They're enhancements to our existing powers. They're not changes to policy; they're enhancements."<sup>41</sup>

**65.** Ychwanegodd:

"At the moment, for example, in the Marine and Coastal Access Act, the permitting powers that are there at the moment would require us to remake legislation every time we amended a permit. As we're dealing with a lot of unknown circumstances as we exit the European Union, the ability to be able to adapt those permits means that it would be a more fit-for-purpose way of controlling fisheries."<sup>42</sup>

**66.** Pan y gwnaethom ofyn pam na ellir aros am y pwerau estynedig ar gyfer Bil Pysgodfeydd Cymru, dywedodd y Gweinidog wrthym ei bod hi'n bosibl y byddai'n rhaid i Lywodraeth Cymru gyflwyno rheoliadau yn gyflym iawn, ac y gallai hynny fod yr wythnos gyntaf ym mis Ebrill.<sup>43</sup> Ychwanegodd:

---

<sup>39</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, Cofnod y Trafodion, [49 a 51], 21 Ionawr 2019

<sup>40</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, Cofnod y Trafodion, [58], 21 Ionawr 2019

<sup>41</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, Cofnod y Trafodion, [60], 21 Ionawr 2019

<sup>42</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, Cofnod y Trafodion, [62], 21 Ionawr 2019

<sup>43</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, Cofnod y Trafodion, [66], 21 Ionawr 2019

---

“Obviously, you know the legislative programme that we currently have during this term—it’s very full, so we’re going to have to look at that, obviously, to bring it through the fisheries policy.”<sup>44</sup>

**67.** Yn ystod Ail Ddarlleniad y Bil yn Nhŷr Cyffredin, mynegodd sawl Aelod Seneddol bryderon ynghylch y defnydd arfaethedig o’r weithdrefn negyddol ar gyfer craffu ar is-ddeddfwriaeth sy’n deillio o’r Bil.<sup>45</sup>

**68.** Gofynnwyd i’r Gweinidog sut mae’n bwriadu defnyddio’r pwerau yn Atodlen 6. Dywedodd wrthym:

“These are very important powers. They’re very powerful. I think this is probably a level of power that we haven’t had before. They’re really important so that we can amend and change the EU legislation that’s retained without seeking primary legislation. As I said, we may need to deviate from EU legislation, so this would allow us to do so. It may help with implementing new international obligations.”<sup>46</sup>

**69.** Ychwanegodd y Gweinidog:

“You’ll be aware of the significant level of statutory instruments that are being made by Welsh Ministers at the moment; ... we may need to make changes as early as the first week of April. So, we need to make sure that we’ve got these powers.”<sup>47</sup>

**70.** Yn ei llythyr at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, tynnodd sylw at yr ystod eang o bwerau sy’n cael eu darparu i Weinidogion Cymru, ac mewn perthynas â’r rhai a gynhwysir yn Atodlen 6, dywedodd:

“Bydd angen y pwerau hyn wrth i ni adael yr UE, felly nid oedd yn ymarferol cyflwyno Bil y Cynulliad yn yr amser a oedd ar gael ac felly cynnal proses graffu lawn y Cynulliad. Hefyd, dim ond i Gymru y byddai unrhyw Fil Cynulliad a gyflwynir ar hyn o bryd yn berthnasol. Mae’r pwerau yn Atodlen 6 yn cael eu harfer drwy Offeryn Statudol, gyda gweithdrefn negyddol a chadarnhaol yn dibynnu ar gwmpas y rheoliad.

---

<sup>44</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, Cofnod y Trafodion, [68], 21 Ionawr 2019

<sup>45</sup> Tŷr Cyffredin, Ail Ddarlleniad, Bil Pysgodfeydd, 21 Tachwedd 2018, colofnau 936, 941

<sup>46</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, Cofnod y Trafodion, [101], 21 Ionawr 2019

<sup>47</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, Cofnod y Trafodion, [102], 21 Ionawr 2019

---



Fel y cyfryw, bydd angen proses graffu'r Cynulliad wrth arfer y pwerau hynny.”<sup>48</sup>

## Ysgrifennydd Gwladol yn ceisio cydsyniad Gweinidogion Cymru o dan y Bil

**71.** Gofynnwyd i'r Gweinidog am y pwerau yn y Bil sy'n galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i weithredu mewn meysydd datganoledig gyda chydsyniad Gweinidogion Cymru, gan nad oedd y sefyllfa a'r rhesymeg yn glir ar unwaith wrth ddarllen yr LCM a'r LCM Atodol. Dywedodd y Gweinidog:

“So, I thought it was quite clear in the LCM and the supplementary LCM, but, obviously, we're laying down all the SIs, and I know there were some concerns from Members around that ... it's just a matter of Assembly time. I think we worked out that if we brought forward every SI, it would take six months of Tuesdays and Wednesdays, and doing nothing else, but I am aware that, obviously, there are concerns around scrutiny, but we're laying statements... I will make sure that where there are areas where we do have concerns, Members are aware of them.”<sup>49</sup>

## Cymal machlud

**72.** Fel yr amlygwyd yn flaenorol, nid yw'r pwerau a ddarparwyd i Weinidogion Cymru gan y Bil yn gyfyngedig o ran amser gan nad oes cymal machlud wedi'i gynnwys yn y Bil ar hyn o bryd.

**73.** Gofynnwyd i'r Gweinidog p'un ai ei bwriad yw i'r pwerau yn y Bil fod yn rhai dros dro ac, os felly, pam nad yw'r Bil yn cynnwys cymal machlud. Dywedodd y Gweinidog:

“Yes, absolutely, they are temporary. I've always made it very clear that we expect to bring forward a Welsh fisheries policy. There's no sunset clause because we don't yet have fisheries built into our legislative programme, so that's the reason for that.”<sup>50</sup>

---

<sup>48</sup> Llythyr gan Lesley Griffiths AC, Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig at Mike Hedges AC, Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 22 Ionawr 2019

<sup>49</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, Cofnod y Trafodion, [117], 21 Ionawr 2019

<sup>50</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, Cofnod y Trafodion, [71], 21 Ionawr 2019

---

## Anghytundeb â Llywodraeth y DU ar gymal 18

**74.** Fel y nodwyd yn flaenorol yn yr adroddiad hwn, nid yw Llywodraeth Cymru yn fodlon â chymal 18 fel y'i drafftwyd ar hyn o bryd.

**75.** Gofynnwyd i'r Gweinidog a oedd y materion mewn perthynas â chymal 18 wedi'u datrys. Dywedodd y Gweinidog wrthym:

“They haven't fully been resolved. Basically, the UK Government doesn't share our view on this matter, so the discussions are ongoing. And, certainly, I've had these discussions at a ministerial level and, obviously, officials are continuing to have them. I absolutely recognise that the conduct of international obligations is reserved, but when you come, then, to implement those obligations, if they're in a devolved area, that's up to us. But, as I say, the UK Government doesn't really share the view on that.

I think, myself, Scotland, Northern Ireland and the UK Government all agree that the Secretary of State needs to be able to set the top-level fishing opportunities in UK waters, but our concern is, I suppose, around the very broad way that the power is currently written. So, at the moment, as it stands now, the DEFRA Secretary of State could decide on quotas for scallops in Cardigan bay. So, he would be able to set that at the moment. Now, Michael Gove tells me he wouldn't do that; okay, that's fair enough, I can take that, but what about future UK Governments? So, it's really important. He could also decide on the number of days that the fisheries was open, for instance, so we don't accept that that is the case. So, those discussions are ongoing. I am hopeful that we will get an agreement in the next few weeks.

...

I think we're getting there. As I say, the discussions I've had—. I had a very brief discussion about this last Monday at the quadrilateral in London. I do think we're getting there.”<sup>51</sup>

**76.** Rhoddodd swyddog a ddaeth i'r Pwyllgor gyda'r Gweinidog ragor o fanylion:

“The issue hinges on the term ‘international obligations’ in the clause itself, which we feel is too broad. So, what we're seeking is some

---

<sup>51</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, Cofnod y Trafodion, [74, 75 a 78], 21 Ionawr 2019

---

reassurance, maybe in the form of the mechanics of the inter-ministerial agreement that we've got in place, because this area does span reserved and devolved—some assurance that the National Assembly for Wales can be consulted and also provide a view on any changes that are brought forward that affect devolved administrations' powers.”<sup>52</sup>

**77.** Gofynnwyd i'r Gweinidog a oedd hi o blaid gwrthod argymhelliad am gydsyniad os, mewn perthynas â chymal 18, nad yw'r Bil wedi'i ddiwygio i'w boddhad. Dywedodd y Gweinidog:

“Certainly it's something that we're considering. I have red lines, and I think this, obviously, comes in that category. I think, as we work forward on the fisheries management framework, this is an area where officials know it is absolutely a priority that we get this right.”<sup>53</sup>

**78.** Wrth sôn am y goblygiadau o ran cymal 18 ar gyfer pysgota yn nyfroedd Cymru, dywedodd y Gweinidog wrthym:

“We are also looking at getting some sort of inter-ministerial agreement in the way that we've had on the agricultural side for a long time. So, these are part of the discussions that we are having...”<sup>54</sup>

**79.** Yna ychwanegodd:

“So, I think once clause 18 is sorted, that will be all the red lines ticked off, and I will then be able to recommend [consent].”<sup>55</sup>

## Mecanwaith datrys anghydfodau

**80.** Codwyd mater mecanwaith datrys anghydfodau yn Nhŷ'r Cyffredin, gydag ASau yn galw am fecanwaith ar gyfer ymgynghori â'r gweinyddiaethau datganoledig ac un fyddai'n atal datganiadau ar y cyd rhag methu.<sup>56</sup>

**81.** Gofynnwyd i'r Gweinidog a oedd hwn yn gyfle delfrydol i osod cynsail ddeddfwriaethol ar gyfer gweithdrefn datrys anghydfodau, yn enwedig o ran

---

<sup>52</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, Cofnod y Trafodion, [79], 21 Ionawr 2019

<sup>53</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, Cofnod y Trafodion, [81], 21 Ionawr 2019

<sup>54</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, Cofnod y Trafodion, [88], 21 Ionawr 2019

<sup>55</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, Cofnod y Trafodion, [111], 21 Ionawr 2019

<sup>56</sup> Tŷ'r Cyffredin, Ail Ddarlleniad, Bil Pysgodfeydd, 21 Tachwedd 2018, colofnau 929, 953, 955, 960

---

cymal 18. Tra'n awgrymu i ddechrau ei bod hi'n cytuno â hynny,<sup>57</sup> pan ofynnwyd iddi gadarnhau p'un a ddylid gosod y mecanwaith ar wyneb y ddeddfwriaeth, dywedodd y Gweinidog:

"Certainly that's a discussion that we can have, and I'd be very happy to update the committee following the meeting this week, if that would be helpful."<sup>58</sup>

**82.** Dywedodd swyddog a ddaeth i'r Pwyllgor gyda'r Gweinidog:

"There haven't been any discussions about following a legislative approach for—. We have discussed dispute resolution in a fisheries context, but it's sort of wrapped up in the work of the joint fisheries statement, because the joint fisheries statement is how we come together, how we negotiate, how we respect the fact that Wales has the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015. So, our definition of sustainability is enshrined in legislation. So, the joint fisheries statement is to create that vehicle to respect both devolution and to enable us to bind ourselves together around some of these things.

...

It would be more appropriate for the joint fisheries statement, I would believe, largely because it needs to be fit for purpose in the future as well, and we're in an evolving position."<sup>59</sup>

**83.** Yn dilyn ymrwymiad a roddwyd yn ystod y dystiolaeth, ysgrifennodd y Gweinidog atom yn nodi:

"[Yng nghyfarfod yr Uwch Grŵp Llywio diweddaraf ar y Môr a Physgodfeydd yr wythnos diwethaf] trafododd swyddogion gymal 18 o Fil Pysgodfeydd drafft y DU, ac rwyf wedi derbyn cadarnhad eu bod wedi cofrestru'r pryderon ynghylch y mater hwn ac wedi gofyn i DEFRA ystyried ac ymateb, gan gymryd i ystyriaeth yr egwyddorion a'r arferion rhynglywodraethol presennol ar gydweithredu."<sup>60</sup>

---

<sup>57</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, Cofnod y Trafodion, [90], 21 Ionawr 2019

<sup>58</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, Cofnod y Trafodion, [92], 21 Ionawr 2019

<sup>59</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, Cofnod y Trafodion, [95 a 97], 21 Ionawr 2019

<sup>60</sup> [Llythyr gan Lesley Griffiths AC, Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig at y Cadeirydd, 29 Ionawr 2019](#)

---

**84.** Roedd llythyr y Gweinidog at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig hefyd yn ymdrin â datrys anghydfodau:

“Bydd y Cyd-ddatganiad Pysgodfeydd yn rhan allweddol o’r Fframwaith Pysgodfeydd yn nodi amcanion cyffredin awdurdodau polisi pysgodfeydd y DU. Bydd hwn yn cael ei ategu gan ystod o femoranda dealltwriaeth sy’n amlinellu sut bydd yr awdurdodau polisi yn gweithio gyda’i gilydd. Byddant yn cael eu cefnogi gan fecanweithiau cyd-lywodraethu effeithiol a mecanweithiau addas ar gyfer datrys anghydfod.”<sup>61</sup>

## Newidiadau pellach i Fil Pysgodfeydd Llywodraeth y DU

**85.** Mae’r LCM atodol yn amlinellu newidiadau pellach i’r Bil y mae Llywodraeth Cymru yn eu trafod gyda Llywodraeth y DU, gan gynnwys, fel y nodwyd yn gynharach, newid i’r pŵer gwneud gorchymyn interim yn adran 136 o *Ddeddf y Môr a Mynediad i’r Arfordir 2009*. Byddai hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud gorchymynion dros dro at ddibenion rheoli pysgodfeydd mewn sefyllfaoedd nad ydynt yn gyfan gwbl gysylltiedig â diogelu Parth Cadwraeth Morol.

**86.** Ar 21 Ionawr 2019, dywedodd y Gweinidog wrthym:

“...I think this has been a long-standing issue and, certainly since I’ve been in post, it’s something that stakeholders have wanted to see—so, that ability to be able to reissue a permit without having to have legislation, so having that flexibility to be able to do that. Again, we’ve had some significant dialogue, really, with the UK Government around this issue, and I do expect to see further amendments coming forward.

...

I think they absolutely accept that this is an area that we will have, and if we do get these further amendments, obviously, Chair, I will lay a further supplementary LCM.”<sup>62</sup>

**87.** O ran cynnydd y Bil drwy Senedd y DU, dywedodd y Gweinidog:

---

<sup>61</sup> Llythyr gan Lesley Griffiths AC, Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig at Mike Hedges AC, Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 22 Ionawr 2019

<sup>62</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, Cofnod y Trafodion, [106 a 108], 21 Ionawr 2019

“I understand from a discussion I had with Michael Gove last Monday they are working to a much more accelerated timetable now, particularly with the threat of no deal.”<sup>63</sup>

**88.** Trafododd y Gweinidog hyn yn ei llythyr at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig:

“...rwy’n ymwybodol, gyda disgwyl i’r DU adael yr UE ym mis Mawrth, bod amserlen y Bil yn symud yn ei blaen yn gynt nag arfer ac felly hwyrach mai prin fydd y cyfleoedd pellach i ddylanwadu ar y Bil.”<sup>64</sup>

## Bil Pysgodfeydd Llywodraeth Cymru

**89.** Mae adrannau cynharach yr adroddiad hwn wedi cyfeirio at fwriad y Gweinidog i gyflwyno Bil Pysgodfeydd Cymru yn y dyfodol agos.

**90.** Fel Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig, ymrwymodd y Gweinidog i gyflwyno deddfwriaeth pysgodfeydd penodol i Gymru mewn tystiolaeth ysgrifenedig cyn ei hymddangosiad gerbron y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig ym mis Gorffennaf 2018 ar gyfer craffu ar Brexit:

“...bydd angen inni gyflwyno Bil Pysgodfeydd i Gymru yn dilyn ymadael â’r UE i ddisodli deddfwriaeth etifeddol Ewropeaidd, y caiff y rhan fwyaf ohoni ei harbed gan fân ddiwygiadau sy’n ei gwneud yn rhywbeth ‘gweithredadwy’ yn hytrach na’r gyfraith orau, pan fydd unrhyw gyfnod gweithredu yn dod i ben. Yn benodol, bydd angen inni gymryd camau mewn perthynas â phennu cyfleoedd pysgota yng Nghymru, rheoli a gorfodi a gwyddoniaeth a thystiolaeth.

Rydym yn barod i weithio gyda Defra ar ei chynigion ar gyfer pysgodfeydd yn Lloegr ac i sicrhau nad yw unrhyw gynigion yn cael effaith andwyol ar flaenoriaethau datganoledig.”<sup>65</sup>

---

<sup>63</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, Cofnod y Trafodion, [111], 21 Ionawr 2019

<sup>64</sup> Llythyr gan Lesley Griffiths AC, Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig at Mike Hedges AC, Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 22 Ionawr 2019

<sup>65</sup> Lesley Griffiths AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig, [Craffu ar Brexit](#) a gyflwynwyd i’r Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, Gorffennaf 2018

---

**91.** Yn ystod ei sesiwn dystiolaeth gyda'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, dywedodd:

“In relation to a Welsh fisheries Bill, I haven't got a timescale. We have been working more on the agricultural Bill although, obviously, we're doing preparatory work for the fisheries Bill. Again, we haven't seen the UK fisheries Bill. My understanding is they are hoping to publish a UK fisheries Bill in January of next year, but we have not had that shared with us at all. So, we need some clarity on the legislative framework, really, before we can then shape our Bill but, obviously, we can't just sit back and wait for the UK Government, so we are doing some preparatory work.

I would imagine the fisheries Bill I will be looking to go out to consultation on towards the end of this year, maybe early next year, in preparation. So, it's a bit hard to tell you what a future fisheries Bill will look like at the moment. As we shape our proposals—I'm sure I'll be in front of committee again—but I'll certainly be very happy to keep committee updated if I'm not.”<sup>66</sup>

**92.** Yn ystod gwaith craffu ar y gyllideb gyda'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig ym mis Tachwedd 2018, amlinellodd Ysgrifennydd y Cabinet fel yr oedd hi ar y pryd ei bwriad i lansio ymgynghoriad “Brexit a'n Moroedd” yn 2019, a fydd wedyn yn dylanwadu ar bolisi pysgodfeydd Cymru a fydd ei angen ar ôl Brexit.<sup>67</sup>

**93.** Yn ei thystiolaeth i ni, dywedodd y Gweinidog:

“...when we bring forward our own Welsh fisheries Bill, if we hadn't got that clause [39] in, we wouldn't have been able to have the legislative competence in relation to that.”<sup>68</sup>

**94.** Mewn llythyr at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, wrth ymateb i gwestiwn ynghylch y rhesymeg dros ofyn am bwerau ym Mil y DU, atebodd y Gweinidog fod Llywodraeth Cymru yn “ystyried cyflwyno Bil i Gymru (**os oes angen**) unwaith y bydd cymhwysedd y Cynulliad yn gymwys i barth

---

<sup>66</sup> Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, Cofnod y Trafodion [62-63], 18 Gorffennaf 2018

<sup>67</sup> Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, Cofnod y Trafodion [107], 8 Tachwedd 2018

<sup>68</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, Cofnod y Trafodion, [43], 21 Ionawr 2019. Gweler hefyd Cofnod y Trafodion, [47].

Cymru yn ei gyfanrwydd.”<sup>69</sup> Fodd bynnag, mewn ymateb i gwestiwn hwyrach, dywedodd y Gweinidog mai ei “bwriad yw cyflwyno Bil pysgodfeydd i Gymru...”<sup>70</sup>

**95.** Yn ddiweddarach, cadarnhaodd i’r Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, er bod y rhaglen ddeddfwriaethol wedi’i gwasgu a bod angen iddynt ddod o hyd i slot, ei bwriad oedd y bydd Bil Pysgodfeydd Cymru yn cael ei basio cyn diwedd y Pumed Cynulliad.<sup>71</sup>

## Ein barn

**96.** Yn anffodus, mae diffyg eglurder yn nhystiolaeth y Gweinidog ac mae wedi bod yn anodd dadfennu nid yn unig y rhesymeg dros y dull a fabwysiadwyd gan Lywodraeth Cymru ond hefyd ei bwriadau at y dyfodol.

**97.** Felly, byddai datganiad ysgrifenedig wedi bod o fudd i gynorthwyo gyda’n gwaith craffu ar yr LCM. Mae dadl y Gweinidog nad oedd unrhyw ddatganiad wedi’i osod ar gyfer y Bil oherwydd ei fod yn wahanol i’r Bil Amaethyddiaeth (a oedd yn cynnwys datganiad ysgrifenedig) wedi methu â bodloni o ran darparu eglurhad rhesymol.

**98.** Rydym wedi dod yn gynyddol bryderus ynghylch trosglwyddo pwerau gan y Cynulliad Cenedlaethol fel y ddeddfwrfa i Lywodraeth Cymru fel y weithrediaeth. Amlygir y pryder hwn lle caiff pwerau eu dirprwyo i Weinidogion Cymru trwy Fil y DU, lle nad yw Aelodau’r Cynulliad yn gallu dylanwadu’n uniongyrchol trwy gyflwyno gwelliannau fel modd o brofi a gwella’r ddeddfwriaeth.

**99.** Rydym yn cydnabod mai’r Bil yw’r Bil cyntaf sy’n ceisio creu elfennau deddfwriaethol sylfaenol o fframwaith cyffredin ledled y DU ar ôl Brexit. Fodd bynnag, roedd yn siomedig nad oedd y Gweinidog wedi egluro’n glir pa ddarpariaethau yn y Bil sy’n ymwneud â fframweithiau cyffredin a pha ddarpariaethau sy’n ymwneud â materion eraill. Gellid fod wedi cynnwys y wybodaeth hon a’i hegluro yn yr LCM, a fyddai wedi bod yn ddefnyddiol.

---

<sup>69</sup> Llythyr gan Lesley Griffiths AC, Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig at Mike Hedges AC, Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 22 Ionawr 2019, ymateb i gwestiwn 3

<sup>70</sup> Llythyr gan Lesley Griffiths AC, Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig at Mike Hedges AC, Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 22 Ionawr 2019, ymateb i gwestiwn 20

<sup>71</sup> Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, Cofnod y Trafodion [29-33], 24 Ionawr 2019

---



**100.** Felly, rydym yn parhau i fod yn ansicr ynghylch i ba raddau y mae'r Bil yn mynd y tu hwnt i'r hyn sy'n angenrheidiol i gyflawni fframwaith deddfwriaethol cyffredin.

**101.** Er bod y Bil yn creu fframwaith cyffredin, ni ddylid anwybyddu y broses o wneud rheoliadau a phwerau gweithredol helaeth y mae'n eu darparu i Weinidogion Cymru.

**102.** Yn ein hadroddiad ar LCM Llywodraeth Cymru ar y Bil Amaethyddiaeth dywedwyd:

“Rydym hefyd yn nodi bod y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer Bil Amaethyddiaeth y Deyrnas Unedig a baratowyd gan Lywodraeth Cymru yn disgrifio pob pŵer sy'n cael ei gymryd, ond nad yw'n cynnig sylwadau wedyn ar briodoldeb pob pŵer dirprwyedig na phriodoldeb y weithdrefn i'w chymhwyso (fel y disgwylir yn achos un o Filiau Llywodraeth Cymru).”<sup>72</sup>

**103.** Felly, mae'n rhwystredig nad yw'r LCM ar gyfer y Bil hwn yn nodi'n ddigonol y pwerau gwneud rheoliadau a gymerir, heb sôn am geisio cyfiawnhau pam eu bod yn cael eu cymryd neu'r weithdrefn sy'n gymwys ym mhob achos. Rydym yn cydnabod bod nodiadau esboniadol Llywodraeth y DU ar gyfer y Bil Pysgodfeydd yn well na'r rhai ar gyfer y Bil Amaethyddiaeth. Serch hynny, credwn y byddai wedi bod yn arfer da ac addas i gynnwys y wybodaeth yn yr LCM fel y mae'n berthnasol i arfer pwerau gan Weinidogion Cymru.

**104.** Rydym wedi'n synnu gan ddisgrifiad y Gweinidog o'r pwerau gwneud rheoliadau a ddarparwyd i Weinidogion Cymru gan Atodlen 6 fel rhai sy'n darparu lefel o bŵer nad yw wedi cael o'r blaen a'u bod yn bwysig iawn er mwyn gallu addasu a newid deddfwriaeth yr UE a ddargedwir heb geisio deddfwriaeth sylfaenol”.

**105.** Mae'r sylwadau hyn yn ychwanegu pwysau i'n pryder cynharach ynghylch trosglwyddo pŵer o'r deddfwrfa i'r weithrediaeth a gellir eu dehongli fel nad ydynt yn cydnabod yn llawn rôl y Cynulliad Cenedlaethol fel deddfwrfa o fewn proses ddemocrataidd Cymru. Cawsant eu gwneud hefyd ar ôl ein hadroddiad ar LCM Llywodraeth Cymru ar gyfer y Bil Amaethyddiaeth, a oedd yn dweud nad oedd sylwadau tebyg a wnaed gan y Gweinidog yng nghyd-destun y Bil hwnnw yn cael eu croesawu.

---

<sup>72</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar Fil Amaethyddiaeth y DU, Ionawr 2019, paragraff 128

---

**Argymhelliad 1.** Yn ystod y ddadl ar y cynnig cydsyniad mewn perthynas â'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, dylai'r Gweinidog esbonio ei barn ynghylch faint o bŵer deddfwriaethol a ddarperir i Weinidogion Cymru drwy Fil Pysgodfeydd Llywodraeth y DU.

**106.** Fel y trafodir isod, rydym yn pryderu nad yw'r Gweinidog wedi egluro p'un a yw'r Bil yn ddeddfwriaeth drosiannol sydd ond ei angen o ganlyniad i Brexit. Mae ymateb y Gweinidog bod y pwerau o fewn y Bil fwy na thebyg yn rhai cyfatebol, a'r ymateb dilynol gan ei swyddog bod y Bil mewn gwirionedd yn cynnwys gwelliannau i bwerau sy'n bodoli eisoes, yn amlygu ein pryderon.

**107.** Mae rhan o'r cyfiawnhad dros ddull Llywodraeth Cymru i'r Bil yn seiliedig ar ddiffyg amser deddfwriaethol yn y Cynulliad Cenedlaethol. Fel y nodwyd yn gyntaf yn ein hadroddiad ar LCM Llywodraeth Cymru ar gyfer y Bil Amaethyddiaeth, roedd sylwadau a wnaed ym mis Gorffennaf 2018 yn awgrymu bod rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru yn cynnwys hyblygrwydd i ddelio â deddfwriaeth sy'n gysylltiedig â Brexit. Mae'n parhau i fod yn aneglur, felly, pam bod y Gweinidog wedi awgrymu eto bod yr amserlen ddeddfwriaethol a'r faich ar y Cynulliad Cenedlaethol yn rhwystr annisgwyl er mwyn i Lywodraeth Cymru gyflwyno ei deddfwriaeth ei hun yn ymwneud â Brexit.

**108.** At hynny, rydym o'r farn bod sylwadau'r Gweinidog ynghylch y graddau y mae Gweinidogion Cymru wedi bod yn gwneud rheoliadau sy'n ymwneud â Brexit yn anfoddhaol. Ar adeg ei sesiwn dystiolaeth, roedd Gweinidogion Cymru wedi ei wneud dau reoliad sy'n gysylltiedig â Brexit er ei fod wedi cydsynio i Weinidogion y DU sy'n gweithredu mewn meysydd datganoledig ar o leiaf 70 achlysur.

**109.** Rydym yn derbyn bod y DU yn ymadael â'r UE yn broses a allai ofyn am ddull pragmatig. Fodd bynnag, mae'r amddiffyniad rhag pragmatiaeth a ddefnyddir yn aml yn dechrau cael ei or-ddefnyddio ac yn cynnwys risgiau yng nghyd-destun datganoli Cymru a deddfu da.

**110.** Os bydd angen cynyddu llwyth gwaith y Cynulliad Cenedlaethol yn sgil Brexit, cyfrifoldeb y weithrediaeth yw cyflwyno'r busnes angenrheidiol mewn da bryd, yn yr un modd mai cyfrifoldeb y ddeddfwriaeth yw ystyried a phenderfynu sut y bydd yn rhaglennu'r gwaith craffu angenrheidiol.

**111.** Fel y mae ein hadroddiad yn nodi, er bod diffyg eglurder ynghylch y sicrwydd bod Llywodraeth Cymru yn datblygu ei Bil Pysgodfeydd ei hun, mae'r Gweinidog wedi dweud, sawl tro, ei bod hi'n bwriadu cyflwyno Bil o'r fath yn ystod y tymor hwn o'r Cynulliad. Rydym yn tynnu sylw at y pwynt hwnt am ddau reswm.

---

**112.** Yn gyntaf, nod datganedig y Bil yw sicrhau unffurfiaeth a dull cyson o ran polisi pysgodfeydd ar draws cenhedloedd y DU ar ôl Brexit. Fodd bynnag, ar ôl nodi y bydd Bil Llywodraeth Cymru, sy'n cyflwyno darpariaethau ar gyfer polisïau sy'n benodol i Gymru, yn cael ei gyflwyno, mae'n parhau i fod yn aneglur sut y bydd Bil Cymru a Bil y DU yn cydweithio. Er mwyn ychwanegu at yr ansicrwydd hwnnw, mae'r LCM yn awgrymu bod angen i ni ddibynnu ar Fil y DU oherwydd yr anghyfleustra bod pysgodfeydd Cymru wedi rhannu rhwng Bil Cymru a Bil y DU.

**113.** Yn ail, os yw'n wir mai bwriad Llywodraeth Cymru yw cyflwyno ei deddfwriaeth pysgodfeydd ei hun, nid yw'n glir pam nad yw'r Gweinidog wedi ceisio cynnwys cymal machlud yn y Bil. Byddai hyn yn rhoi mwy o bwysau a hwb i ymrwymiad y Gweinidog i gyflwyno ei deddfwriaeth ei hun. Eto, fodd bynnag, mae ansicrwydd yn parhau oherwydd yn ei thystiolaeth i ni, dywedodd y Gweinidog wrthym nad oes cymal machlud am nad ydynt wedi cynnwys pysgodfeydd yn eu rhaglen deddfwriaethol eto, er eu bod yn cydnabod y gallai hynny newid.

**Argymhelliad 2.** Dylai'r Gweinidog ysgrifennu at y Pwyllgor hwn i:

- (i) egluro pa ddarpariaethau o fewn y Bil sydd eu hangen dim ond at ddibenion darparu fframwaith deddfwriaethol cyffredin y DU;
- (ii) egluro pa ddarpariaethau o fewn y Bil (a chymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad) nad ydynt yn angenrheidiol at ddibenion darparu fframwaith deddfwriaethol cyffredin, a'r rheswm dros eu cynnwys ym mhob achos;
- (iii) cadarnhau mai ei bwriad hi yw cyflwyno Bil Pysgodfeydd Cymru cyn gynted â phosib;
- (iv) esbonio sut y bydd Bil Pysgodfeydd Cymru yn gweithio gyda Bil Pysgodfeydd y DU, yn enwedig yng nghyd-destun y fframwaith cyffredin.

**Argymhelliad 3.** Dylai'r Gweinidog geisio cael gwelliant i Fil Pysgodfeydd y DU er mwyn mewnosod cymal machlud er mwyn sicrhau bod eglurder yn y dyfodol ynghylch cymhwyso deddfwriaeth sylfaenol ar bysgodfeydd yng Nghymru.

**114.** O ran cymal 18, rydym yn nodi ac yn rhannu barn Llywodraeth Cymru nad yw'n ymddangos bod gweithredu cytundebau rhyngwladol mewn meysydd o gymhwysedd datganoledig wedi'u dargadw, gan olygu y byddai'n dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol.

**115.** Dywedodd y Gweinidog wrthym fod fersiwn drafft presennol cymal 18 yn llinell goch. Yn dilyn hynny, dywedodd y Gweinidog a'i swyddog wrthym y gallai'r

mater sy'n achosi'r anghydfod gael ei ddatrys drwy gytundeb rhyng-weinidogol. Nid ydym yn credu bod datblygu cytundeb o'r fath yn gynnig digonol yn lle datrysiad deddfwriaethol. Rydym yn arbennig o bryderus ynghylch sut byddai cytundeb o'r fath, boed ar gyfer cymal 18 neu unrhyw ddarpariaethau eraill yn y Bil, yn destun gwaith craffu a goruchwyllo gan y Cynulliad Cenedlaethol.

**Argymhelliad 4.** Dylai'r Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am gynnydd ar ddatrys pryderon Llywodraeth Cymru gyda chymal 18 o Fil Pysgodfeydd Llywodraeth y DU, gan gynnwys esboniad o ran p'un a yw'r cytundeb rhynglywodraethol y siaredir amdano yn debygol o gael ei roi ar waith ac, os felly, a fyddai, mewn gwirionedd, yn caniatáu i Weinidogion y DU weithredu mewn meysydd datganoledig heb unrhyw waith craffu gan y Cynulliad Cenedlaethol.

**116.** Credwn fod angen i'r Bil gynnwys darpariaeth ar gyfer mecanwaith datrys anghydfodau. Yn ein barn ni, byddai mecanwaith o'r fath yn cael ei groesawu gan bob ochr; er enghraifft, byddai'n helpu i sicrhau nad yw Gweinidogion y DU yn gweithredu er lles gorau Lloegr yn unig ac nad yw Gweinidogion Cymru yn cymryd camau unochrog.

**117.** Nodwn fod y Gweinidog ei hun wedi codi'r posibilrwydd o gael mecanwaith datrys anghydfodau yn ei gohebiaeth â'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig. Rydym yn croesawu ymrwymiad y Gweinidog a oedd yn awgrymu y byddai'r trafodaethau nesaf â Llywodraeth y DU yn cynnwys gwneud darpariaeth deddfwriaethol ar gyfer datrys anghydfodau. Felly, rydym yn siomedig bod llythyr y Gweinidog atom ni dyddiedig 29 Ionawr 2019 yn nodi bod swyddogion Llywodraeth Cymru wedi cofrestru pryderon yn unig gyda DEFRA ar y mater hwn. Nid yw hyn, yn ein barn ni, yn foddhaol.

**Argymhelliad 5.** Dylai'r Gweinidog weithio tuag at gynnwys darpariaeth deddfwriaethol ar gyfer mecanwaith datrys anghydfodau ym Mil Pysgodfeydd Llywodraeth y DU a diweddarau'r Pwyllgor gyda gwybodaeth fanwl am ei thrafodaethau â Llywodraeth y DU ynghylch darpariaeth o'r fath.

**118.** Rydym yn croesawu cymal newydd 39, a gyflwynwyd gan welliant yn ystod y cyfnod pwyllgorau yn Nhŷ'r Cyffredin, a fydd yn ymestyn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol mewn perthynas â physgodfeydd môr yn y parth alltraeth ac felly'n cyd-fynd â chymhwysedd gweithredol presennol Gweinidogion Cymru.

---

**119.** Rydym yn siomedig gyda'r diffyg gwybodaeth yn yr LCM ynghylch y rhesymeg a'r broses ar gyfer Gweinidogion Cymru sy'n rhoi cydsyniad i Lywodraeth y DU weithredu mewn meysydd datganoledig o dan gymalau 9 ac 11, ac mewn amgylchiadau priodol, o dan gymalau 31 a 33.

**Argymhelliad 6.** O ran hysbysu'r Cynulliad Cenedlaethol o reoliadau a wneir gan Weinidogion y DU mewn meysydd datganoledig o dan y Bil Pysgodfeydd, unwaith y byddant wedi'u deddfu, dylai'r Gweinidog ymrwymo i ddilyn gweithdrefn gyfatebol i'r hyn a nodir yn Rheol Sefydlog 30C.

**120.** Yng ngoleuni ein hargymhellion yn yr adroddiad hwn, a hyd nes yr ystyrir unrhyw LCMs atodol ychwanegol, pe byddent yn cael eu cyflwyno, nid ydym mewn sefyllfa i fynegi barn o ran a ddylai'r Cynulliad Cenedlaethol roi ei gydsyniad i gymalau'r Bil y cyfeirir atynt yn yr LCM a'r LCM atodol.

**Argymhelliad 7.** Dylai'r Gweinidog sicrhau y dylid darparu'r wybodaeth y gofynnwyd amdani yn argymhellion 2, 4 a 5 i'r Pwyllgor mewn da bryd cyn trafod cynnig cydsyniad deddfwriaethol sy'n ceisio cydsyniad y Cynulliad mewn perthynas â darpariaethau ym Mil Pysgodfeydd Llywodraeth y DU. Dylid darparu'r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch y cynnydd ar weithredu argymhellion 3 a 6 yn ystod y ddadl ar y cynnig cydsyniad deddfwriaethol.

**121.** At ei gilydd, roedd diffyg eglurder yn nhystiolaeth y Gweinidog. O ganlyniad, mae'n cynnwys lefel o ansicrwydd ynghylch faint y mae Llywodraeth Cymru mewn rheolaeth, ac felly'n ceisio dylanwadu ar ddeddfwriaeth bwysig a fydd yn effeithio ar Gymru yn y dyfodol.